**ADRODDIAD I'R CABINET**
24 Tachwedd, 2015

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

**Pwnc:** "Eich Gwasanaethau Chi, Eich Dewisiadau Chi" – Ymgynghoriad gan yr Awdurdod Tân

**Swyddog cyswllt:**Arwel E Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni)

---

**Y penderfyniad a geisir**

Croesawu'r ddogfen yn amodol ar rai sylwadau ac, yn benodol croesawu'r ymrwymiad i gyfyngu ar wariant yr Awdurdod dros y tair mlynedd nesaf

---

**Barn yr aelod lleol**

Ddim yn fater lleol

---

**Cyflwyniad**

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol "Eich Gwasanaethau Chi, Eich Dewisiadau Chi" lle y maent yn ymgynghori ar gyfeiriad y gwasanaeth ar gyfer 2016/17 a thu hwnt.

Mae'r ddogfen, y mae copi ohonno ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn, yn nodi 4 amcan sylfaenol ar gyfer yr Awdurdod dros y cyfnod hynny, sef:-

1. Parhau gyda helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag tanau yn eu cartrefi
2. Gweithio'n galed i wneud ein cyllideb fynd ymhellach fel nad oes angen i ni ofyn i'r cynghorau sir am gyfraniadau uwch
3. Dal i amddiffyn ein HOLL gymunedau, ond gyda gwell cynllunio
4. Ystyried y posibilrwydd o wneud mwy bethau ar ran ein cymunedau

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Mae'r ddogfen yn amlygu'r math o densiynau y mae'r Cyngor ei hun yn ymrafael â hwy o ran yr angen i ddarparu gwasanaeth ymatebol digonol yn erbyn cyd-destun ariannol anodd ac mae y symud pwyslais o adeiladau (y gorsafoedd) i griwiau yn ymagwedd newydd at yr her sydd o'u blaenau. Diau y bydd y Cabinet yn dymuno deall fwy am hyn cyn cynnig sylwadau arno a dichon y bydd ein cynrychiolwyr ar yr Awdurdod Tan yn gallu ein cynorthwyo i wneud hynny.

Ar y wyneb, mae'r amcanion yn rhai rhesymol sydd yn gydnaws â phwyslais y Gwasanaeth Tân dros y blynyddoedd diwethaf o ganolbwyntio ar waith ataliol a byw o fewn cyllideb tra'n gorfod rhesymoli.

Fodd bynnag rhaid bod yn fyw i'r ffaith mai cynnig peidio codi'r galw ariannol arnom mae'r ddogfen yn ei wneud ar adeg pan y gallai adnoddau ariannol y cyngor ostwng yn sylweddol.

Y cwestiwn yr ydym wedi bod yn ceisio ei ateb yn y gorffennol yw a yw'r gwasanaeth mor effeithlon ag y gallai fod. Fe welir barn y Pwyllgor Craffu ar hyn isod.

**Ystyriaethau perthnasol**

Mae'r dimensiwn ariannol yn un pwysig yma. Cafodd hwn sylw yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn Mai, 2015. Derbyniodd y Pwyllgor hwnnw adroddiad a oedd yn esbonio bod gan yr Awdurdod Tân yr hawl i osod praesept ar gynghorau Gogledd Cymru er mwyn talu am y gwasanaeth. Mae'r praesept yma yn cyfrif yn erbyn gwariant y Cyngor. Mae hyn yn wahanol i braesept yr Awdurdod Heddlu sydd yn cael codi praesept ar wahan.

Mae'r gwahaniaeth yma yn sylfaenol bwysig gan fod unrhyw gynnydd yng ngwariant yr Awdurdod Tân yn rhan o ystyriaethau'r Cyngor o ran y balans rhwng gwario a chodi'r dreth, o'i gymharu ag unrhyw gynnydd yng ngwariant yr Heddlu sydd yn mynd yn syth drwodd i'r trethdalwr drwy godi praesept uwch arnynt. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod pob £10,000 yn fwy o braesept y mae'r Awdurdod Tân am i Gyngor Gwynedd ei godi yn £10,000 y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ganfod trwy dorri ei wasanaethau.

Roedd y Pwyllgor Craffu yn awyddus i wybod beth oedd trefniadau'r Awdurdod ar gyfer herio effeithlonrwydd ei wasanaethau a cafodd y Pwyllgor ei fodloni am hynny gan benderfynu, ymysg pethau eraill:-

"i) Datgan bodlonrwydd y Pwyllgor gyda'r herio y mae cynrychiolwyr y Cyngor ar yr Awdurdod Tan wedi bod yn ei wneud hyd yma gan eu hannog i barhau i wneud hynny

ii) Argymell y dylai’r Awdurdod Tan wneud cais i’r Llywodraeth ganiatau trefn wahanol ar gyfer codi praesept yr Awdurdod Tan na fyddai yn cael gymaint o effaith ar benderfyniadau trethi a gwario cynghorau unigol am eu gwasanaethau eu hunain.

Mae’n deg nodi bod y cynnig sydd gerbron yn y ddogfen hon yn gosod llai o bwysau ar gyllidebau y cynghorau unigol na’r hyn a fwriadwyd mewn ymgynghoriadau blaenorol.

Mae cynrychiolwyr y Cyngor ar yr Awdurdod Tân wedi eu gwahodd i gyfarfod y Cabinet i drafod y ddogfen a’u barn arno.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gwahoddir unrhyw sylwadau gan gynghorau unigol erbyn 11 Rhagfyr.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

“Dim i’w ychwanegu i’r adroddiad”

**Y Swyddog Monitro:**

“Dim i’w ychwanegu o ran priodoldeb.”

**Y Pennaeth Cyllid:**

“Rwy'n croesawu bwriad yr Awdurdod Tân i rewi eu cyllidebau am gyfnod o dair blynedd, drwy ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithlon a chwtogi gwariant, gan ostwng cyfraniadau y Cynghorau i lefelau 2008/09 mewn rhai achosion. Deallaf fod yr ardoll argymhellir i'r Awdurdod Tân godi ar Cyngor Gwynedd erbyn 2016/17 yn lled gyson â lefel ardoll eleni (gostyngiad ymylol iawn o 0.08% oherwydd ein cynnydd cymharol isel mewn poblogaeth).”

---

**Atodiadau**

“Eich Gwasanaethau Chi, Eich Dewisiadau Chi” – Dogfen Ymgynghorol gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru